

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016-2017

Tabl Cynnwys

Adrannau	Tudalen
Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru – Carol Cobert	2
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr – Andrew Shipsides	3
1. Swyddogaeth a sgôp y Tribiwnlys	4
2. Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion	5
3. Aelodaeth, hyfforddiant ac arfarnu	7
4. Y Cyngor Llywodraethu	9
5. Staffio	10
6. Cyllid	11
Datganiadau wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr (fel sy'n ofynnol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru – Llywodraeth Cymru)	
Datganiad Llywodraethu	13
Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	14
Atodiadau	
A Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pedair blynedd ddiwethaf	17
B Data Clirio Apeliadau 2016/2017	19
C Dadansoddiad oedran a rhyw yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2017)	21
Ch Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2016/2017	23
D Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y pedair blynedd ddiwethaf	25

Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prasio Cymru

Eleni rydym ni wedi cael ein herio gan doriad sylweddol yn y cyllid a ddyrannwyd i ni. Datgelwyd maint y cwtogiad yn hwyr iawn – h.y. diwedd Chwefror 2016; prin fis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Erbyn hynny roedd gennym ni ymrwymadau sefydlog a oedd yn golygu ei bod yn hysbys bod cadw at y gyllideb yn amhosibl o'r dechrau. Ni fyddem yn medru dod o hyd i arbedion digonol yn ystod y flwyddyn i gael dau ben llinyn ynghyd. Gwnaeth ymadawiad aelod o staff yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn gynorthwyo i leddfu peth o'r pwysau ariannol, ond nid oedd yn ddigonol ynddo'i hun.

Yn ffodus, ym mis Tachwedd llwyddais i ddod i gytundeb gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y byddai'r diffyg annorod yn y cyllid yn cael ei gwmpasu. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Athro Mark Drakeford am fod mor ystyrlon ac ymyrryd, ac am wneud penderfyniad clir yn y cyfarfod hwnnw ynghylch ein cyllid ar gyfer 2017-18. Gwnaeth y penderfyniad cynnar hwnnw roi amser digonol i mi a'm cydweithwyr ar Gyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys i ddatblygu cynllun manwl i'n galluogi i barhau i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf gyda'r gyfundrefn gyllido dynn iawn sy'n bodoli. Rhwir disgrifiad cryno o'r cynllun hwnnw yn yr adroddiad hwn. Bydd rhagor o fanylion i ddilyn yn adroddiad y flwyddyn nesaf, wrth i'r cynllun gael ei roi ar waith.

Yn yr adroddiad hwn rydym ni'n esbonio'r broblem gyllido a ddisgrifiwyd gennyf uchod, a gwaith o ddydd i ddydd y tribiwnlys eleni. Yn gyffredinol mae hon wedi bod yn flwyddyn dawel o ran llwyth gwaith. Mae hyn oherwydd bod y gwaith ardrethu wedi ei leihau gan benderfyniad Llywodraeth Cymru y dylai Asiantaeth y Swyddfa Brasio ganolbwyntio ei adnoddau ar waith ailbriso er mwyn llunio'r rhestrau ardrethi 2017 newydd. Canlyniad hyn oedd cyfyngu ar nifer yr achosion y gallem ni eu rhestru. Petaem ni wedi rhestru mwy o achosion ni fyddai Asiantaeth y Swyddfa Brasio wedi bod mewn sefyllfa i ymdrin â nhw.

Dymunaf ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at waith y tribiwnlys eleni. Yn benodol, y Prif Weithredwr, sydd wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi'r Cyngor Llywodraethu yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn anodd ar adegau.

Diolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwansanaeth.

Carol Cobert

Llywydd – Tribiwnlys Prasio Cymru

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Mae'r llwyth gwaith apeliadau ardrethu wedi parhau i gael ei effeithio eleni gan y cytundeb a wnaed rhwng Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn canolbwyntio ar waith ailbriso yn hytrach na gwaith apêl. Er bod ffigur clirio Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi ei phennu ar ddwywaith lefel y flwyddyn flaenorol, mae'r cyfanswm yn parhau'n llai na hanner y norm ar gyfer blynyddoedd nad ydynt yn flynyddoedd ailbriso. O ganlyniad mae'r tribiwnlys wedi cael blwyddyn dawel o ran apeliadau ardrethu eto, ac mae'r aelodau wedi parhau i weld lleihad yn nifer y gwrandawiadau. Gwnaed y rhan fwyaf o waith ardrethu'r flwyddyn yn ystod ail hanner y flwyddyn ar ôl cyhoeddi'r rhestrau ardrethu 2017 drafft ym mis Medi a daeth staff Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ôl i ymdrin ag amddiffyn apeliadau ardrethu.

Gwnaeth gwaith y dreth gyngor (apeliadau prisio ac atebolrwydd) ddilyn y proffil sydd wedi'i sefydlu, sydd wedi bodoli am sawl blwyddyn erbyn hyn. Derbynnir tua 1,700 o apeliadau prisio mewn blwyddyn, gyda 1,700 yn cael eu prosesu. Yn yr un modd, derbynnir 80 i 100 o faterion atebolrwydd a'u prosesu ymhob cyfnod deuddeg mis. Yn gryno, golyga hyn bod achosion apelwyr yn cael eu clirio gyda'r isafswm o oedi ag y bo'n bosibl gan y tribiwnlys, o gofio ystyried a yw'r partïon ar gael a'r logisteg sy'n sylfaen i restru apeliadau mewn canolfannau gwrandawiadau priodol.

Ni chafodd unrhyw un o benderfyniadau'r tribiwnlys eu cyfeirio fel apêl i'r uwch lysoedd eleni. O'r ychydig achosion a gyfeiriwyd yn ystod y blynyddoedd diweddar, penderfynwyd ar un eleni – sef Gwaith Dur Tremorfa yng Nghaerdydd. Gwnaeth yr Uwch Dribiwnlys (y Siambr Tiroedd) gytuno gyda phenderfyniad Tribiwnlys Prisio Cymru.

Mae lleihad yn y cyllid wedi bod yn bryder eleni. Mae'r Llywydd wedi crybwyll hyn yn ei rhagair, a chyflwynir manylion yn yr adroddiad hwn. Hoffwn ategu diolchiadau'r Llywydd i'r Ysgrifennydd Cabinet Mark Drakeford. Mae ei benderfyniad cynnar ynghylch ein dyraniad cyllid ar gyfer 2017-18 yn golygu na chawn y profiad o'r "ymladd tân" ariannol rydym ni wedi'i wynebu eleni.

Andrew Shipsides
Prif Weithredwr – Tribiwnlys Prisio Cymru

1 Swyddogaeth a sgôp y Tribiwnlys

1.1 Nid yw swyddogaeth a sgôp y tribiwnlys wedi newid yn ystod 2016-17. Mae'n parhau yn wasanaeth am ddim y gall trethdalwyr y dreth gyngor a'r rhai sy'n talu ardrethi busnes yng Nghymru gyfeirio unrhyw anghydfod am agweddau o'u hatebolrwydd ato. Yn bennaf yr agweddau hyn yw:

- Prisiad yr eiddo a ddefnyddir i gyfrifo'r atebolrwydd ardrethi neu'r dreth gyngor.
- P'un ai yw unigolyn yn atebol i dalu'r dreth gyngor.
- P'un ai yw'r atebolrwydd dreth gyngor a gyfrifwyd yn gywir, gan ystyried y gwahanol ddisgowntiau, eithriadau, lleihad a phremiwmiau sy'n berthnasol dan amgylchiadau penodol.

Cyn dod â mater i sylw'r tribiwnlys mae'n rhaid i'r achwynydd fod wedi ceisio datrys y mater gyda'r corff a wnaeth y penderfyniad dechreuol yn gyntaf. Yn achos prisiad eiddo, y corff hwnnw yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio (sy'n asiantaeth weithredu Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi). Ac o ran materion atebolrwydd y dreth gyngor, y corff yw'r awdurdod llywodraeth leol a gyflwynodd y bil treth gyngor (a adnabyddir fel yr awdurdod bilio).

1.2 Ceir mathau eraill o apêl a gyfeirir at y tribiwnlys yn achlysurol, yn ymwneud â:

- Hysbysiadau cwblhau a gyflwynwyd gan awdurdodau bilio gyda'r nod o sefydlu dyddiad y penderfynir bod eiddo yn gyflawn ar gyfer dibenion ardrethu a'r dreth gyngor.
- Cyflwyno cosbau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar unigolion y penderfynodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio eu bod wedi methu â darparu gwybodaeth y mae'n ofynnol iddynt ei rhoi yn gyfreithiol at ddibenion prisio eiddo.
- Asesiad ardrethi draeniad a wneir gan fwrdd draenio lleol.

1.3 Mae gan benderfyniadau'r tribiwnlys yn yr holl faterion hyn rym cyfreithiol. Gall y tribiwnlys adolygu rhai o'i benderfyniadau ardrethu a'r dreth gyngor os yw parti yn gwneud cais, dan amgylchiadau penodol cyfyngedig. Fel arall, caiff partïon anfodlon herio'r penderfyniadau yn yr uwch lysoedd. Gall prisio ar gyfer materion ardrethu gael ei ystyried yn y Tribiwnlys Haen Uwch (Siambwr Tiroedd) i ddechrau, a gall materion y dreth gyngor gael eu hysytyried yn yr Uchel Lys i ddechrau (ar bwynt yn ymwneud â'r gyfraith yn unig). Ni ellir herio prisio ar gyfer materion y dreth gyngor y tu hwnt i benderfyniad y tribiwnlys; mae penderfyniad y tribiwnlys yn derfynol yn yr achosion hynny.

2 Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion

Llwyth gwaith

- 2.1 Roedd y gyfradd clirio apeliadau ardrethu eleni ychydig yn uwch na'r targed a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Roedd y targed (3,000 o achosion) yn ddwywaith targed y flwyddyn flaenorol, wrth ragweld dod â staff Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ôl i ymdrin â *gwaith amddiffyn y rhestr* yn ystod ail hanner y flwyddyn ar ôl i'r Asiantaeth gwblhau'r rhestrau ardrethu 2017 drafft. Cyflawnwyd cyfanswm o ychydig dros 3,600 o achosion wedi eu clirio o ganlyniad i'w rhestru gan Dribiwnlys Prasio Cymru. Cafodd y mwyafrif un ai eu tynnu yn ôl neu eu datrys rhwng y partion yn fuan cyn dyddiad gwrandawriad y Tribiwnlys Prasio. Roedd bron i 300 o apeliadau angen penderfyniad gan Dribiwnlys Prasio Cymru.
- 2.2 Roedd cyfanswm nifer yr achosion a gliriwyd, fel y llynedd, yn is na'r nifer y gall y tribiwnlys eu rhestru a'u prosesu. Mae'r tribiwnlys yn medru prosesu rhwng 6,000 a 7,500 o achosion, ac wedi prosesu gymaint a hynny mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r llif eleni a'r llynedd wedi ei reoli gan y penderfyniadau ar dargedau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio, y cyfeiriwyd atynt uchod. O ganlyniad i hyn roedd y galw ar aelodau tribiwnlys i ddod i wrandawriad ardrethu yn ddim o gwbl neu'n achlysurol iawn. Mae hyn o ganlyniad i nifer aelodaeth y tribiwnlys wedi ei bennu gan statud a'r targed isel. Bydd 2017-18 yn gweld y targed yn dychwelyd i lefelau prosesu tebyg i 2014-15 a blynyddoedd blaenorol. Cytunwyd ar ffigur dechreuol o 6,000 o achosion ar ddiwedd Tachwedd rhwng Tribiwnlys Prasio Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Llywodraeth Cymru ac mae'r tribiwnlys yn croesawu hyn. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn amodol ar drafodaethau cyllido manwl rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Llywodraeth Cymru, i'w cynnal yn nes at ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- 2.3 Ni wnaeth y cynnydd traddodiadol yn nifer yr apeliadau ardrethu a dderbynnir ar ddiwedd cyfnod rhestr ardrethu ddigwydd eleni (h.y. ar ddiwedd cyfnod rhestr ardrethu 2010). Derbyniwyd ychydig dros 3,000 o achosion – o'i gymharu gyda dros 8,700 y llynedd, 4,200 yn 2014-5, a 4,800 yn 2013-14. Fel y soniwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd, gwnaeth newidiadau rheoleiddiol yn Lloegr achosi i asiantau wneud eu hapeliadau 'diwedd rhestr' yng nghyswllt eiddo yn Lloegr yn ystod 2015-16. Ymddengys bod llawer o asiantau wedi gwneud yr un modd o ran eiddo yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith bod y rheoliadau'n wahanol yma. O ganlyniad mae nifer yr apeliadau ardrethu sy'n aros ar ddiwedd y flwyddyn hon yn is na'r nifer a ddechrau'r flwyddyn (h.y. 8,900 o'i gymharu gyda 9,400). Bydd mwyafrif y rhain yn cael eu prosesu yn ystod 2017-18. Serch hynny, mae rhai achosion ychwanegol (wedi'u cofrestru gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ym mis Chwefror a Mawrth) yn aros i'w trosglwyddo gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio i Dribiwnlys Prasio Cymru yn ystod deufis cyntaf 2017-18. Bydd y rhain yn golygu 3,000 o apeliadau ychwanegol ynghylch rhestr 2010, ac felly'n cynrychioli cynnydd bach – ond nid yw mor arwyddocaol â'r cynnydd a fyddai wedi'i ragweld yn arferol.

- 2.4 Gwnaeth y llwyth gwaith apeliadau prisio'r dreth gyngor barhau'n sefydlog gydag ychydig dros 1,600 o achosion wedi'u clirio (o'i gymharu gyda 1,800 yn 2015-16). Mae'r nifer a dderbyniwyd wedi bod oddeutu 1,700 y flwyddyn am nifer o flynyddoedd; ac mae'r prosesu yn digwydd ar yr un cyflymder a'r derbyniadau. Golyga hyn nad oes fawr ddim oedi i apelwyr y dreth gyngor. Yn yr un modd, mae'r derbyniadau a'r prosesu yn cydbwysu i raddau helaeth o ran apeliadau atebolrwydd y dreth gyngor ac apeliadau amrywiol eraill. Dechreuodd y flwyddyn gyda ychydig dros 40 o apeliadau yn aros i gael eu rhestru ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan y Tribiwnlys nifer bron yn unfath, ar ôl prosesu oddeutu 80 o achosion yn ystod y flwyddyn. Eto nid yw trethdalwyr y dreth gyngor yn dioddef fawr ddim oedi o ran prosesu'r math yma o apêl. Yn arferol mae unrhyw oedi arwyddocaol (tri mis neu fwy) o ganlyniad i gais gan y trethdalwr ei hun neu oherwydd bod mater cysylltiedig, sydd â blaenoriaeth, yn cael ei brosesu yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mae'r pwynt olaf hwn yn effeithio ar apeliadau lleihad y dreth gyngor lle maent yn ymwneud ag apeliadau budd-dal tai cysylltiedig.
- 2.5 Mae Atodiad A yn rhoi manylion crynodeb gweithredol ynghylch pob math o apêl a dderbyniwyd ac a gliriwyd yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Mae Atodiad B yn rhoi manylion nifer yr apeliadau yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn.

Apeliadau pellach

- 2.6 Ni chofrestrwyd unrhyw apeliadau gyda'r Uwch Dribiwnlys (y Siambr Tiroedd) eleni yn erbyn penderfyniadau ardrethu Tribiwnlys Prisio Cymru.
- 2.7 Penderfynwyd ar apêl Gwaith Dur Tremorfa a gyfeiriwyd i'r Uwch Dribiwnlys y llynedd gan y Siambr Tiroedd yn ystod eleni. Gwnaeth y Siambr Tiroedd gytuno gyda phenderfyniad Tribiwnlys Prisio Cymru.
- 2.8 Ni chafwyd unrhyw apeliadau i'r Uchel Lys am benderfyniadau'r Tribiwnlys Prisio ar faterion y dreth gyngor.

Cwynion

- 2.9 Derbyniodd y tribiwnlys ddau gŵyn ffurfiol am faterion gweinyddol eleni. Yn y cyntaf, canfu'r Prif Weithredwr y bu mân fethiannau gweinyddol. Cyflwynwyd ymddiheuriad, a gafodd ei dderbyn. Wedi hynny cafodd achos yr apelydd ei ddatrys rhwng y partïon heb ragor o ymyriad gan Dribiwnlys Prisio Cymru. Yn yr ail gwnaeth Clerc Rhanbarthol ymchwilio i gŵyn gan apelydd yn honni aflonyddu gan aelod o staff Tribiwnlys Prisio Cymru. Ni chanfuwyd unrhyw achos. Gwnaeth yr achwynydd gwyno wrth y Prif Weithredwr. Eto ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o aflonyddu. Yna gwnaeth yr achwynydd gofrestru'r mater gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, ni wnaeth yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater yn fanwl gan ei fod wedi penderfynu nad oedd unrhyw rinwedd i'r honiad.

Aelodaeth, hyfforddiant ac arfarnu

Aelodaeth

- 2.11 Lleihaodd yr aelodaeth gyffredinol eto eleni, yn bennaf gan na wnaeth rhai aelodau gyflwyno eu henwau i gael eu hailbenodi yn dilyn diwedd cyfnod eu penodiad. Roedd cyfanswm y nifer yn 147 ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad, o'i gymharu ag 156 y llynedd.
- 2.12 Mae'r proffil oedran wedi gwella ychydig eleni. Mae 42% o'r aelodau yn 70 oed neu'n hŷn, o'i gymharu gyda 48% y llynedd. Mae hyn o ganlyniad i rai aelodau hŷn yn gadael, yn hytrach nag o ganlyniad i aelodau newydd, ieuengach yn ymuno. Nid yw'r tribiwnlys yn recriwtio aelodau newydd yn weithredol ar hyn o bryd, gan fod y llwyth gwaith yn annigonol i ddarparu lefel rhesymol o fynychu gwrandawiadau i'r garfan bresennol. Yn anffodus mae'r aelodau sydd wedi gadael eleni wedi cael effaith andwyol ar y cydbwysedd rhyw. Y llynedd roedd yn 74% gwrywod a 26% benywod; erbyn hyn mae 81% yn ddynion a 19% yn ferched. Cyflwynir dadansoddiad o oedran a rhyw'r aelodaeth yn Atodiad C.

Hyfforddiant

- 2.13 Gwnaeth 88% o aelodau ddod i ddigwyddiadau hyfforddiant Tribiwnlys Priso Cymru eleni. Mae hwn yn gynnydd sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol. (Gwnaeth pob un o'r tair blynedd flaenorol weld presenoldeb cymharol sefydlog tua 75% [+/- 1%.]) Mae'r cynnydd hwn yn bennaf oherwydd y gyfundrefn hyfforddiant lymach mewn grym eleni a oedd yn gwahardd aelodau rhag mynd i wrandawiadau am gyfnod os nad oeddynt yn bresennol yn yr hyfforddiant. Hefyd collwyd rhai aelodau nad oeddynt yn tueddu mynychu hyfforddiant yn y gorffennol.
- 2.14 Cynhyrchwyd fideos o sesiynau hyfforddiant yr haf eleni. Yna cafodd y rhain eu defnyddio ar gyfer digwyddiad 'dal i fyny' cenedlaethol yr hydref a sesiynau rhanbarthol llai ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad. Mae'r rhain yn cynrychioli elfennau dechreuol adnodd hyfforddiant fideo y mae'r Tribiwnlys yn bwriadu ei ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf. Bydd hyn yn ehangu cynnig hyfforddiant Tribiwnlys Priso Cymru i aelodau newydd a'r aelodau presennol. Rhagwelir, maes o law, y bydd y Tribiwnlys yn medru cynnig dysgu o gartref i'w aelodau ar ystod o agweddau technegol gwaith y tribiwnlys, gan ddefnyddio deunyddiau fideo ar y cyd â thafleuni asesu a fydd yn cael eu marcio.

Arfarnu

- 2.15 Mae arfarnu aelodau yn parhau i gael ei effeithio gan nifer isel yr apeliadau o'i gymharu â blynyddoedd arferol (gweler adran 2 ar y llwyth gwaith). Mae'r system arfarnu wedi'i seilio ar arsylwi aelodau yn gweithredu yn ystod

gwrandawiadau tribiwnlys lle bo herio rhwng dwy ochr. Yn sgîl nifer isel y gwrandawiadau tribiwnlys ac achosion wedi'i herio bu'n anodd cael yr holl elfennau sy'n ofynnol yn eu lle er mwyn i rai o'r arfarniadau oedd i'w cynnal gael eu cyflawni. Gwnaiff y tribiwnlys gwblhau'r rhaglen arfarnu pan fydd cynnydd yn y llwyth gwaith.

3 Y Cyngor Llywodraethu

- 3.1 Mae datganiad llywodraethu'r tribiwnlys ar dudalen 13 yr adroddiad hwn.
- 3.2 Roedd cyfansoddiad y Cyngor Llywodraethu yr un fath â'r llynedd, ac eithrio newid ym mhenodai Llywodraeth Cymru. Daeth Mr Bob Parry i ddiwedd cyfnod olaf ei benodiad ym mis Mehefin, ar ôl gwasanaethu am gyfanswm o 10 mlynedd. Fe'i olynwyd gan Mr Russell Lawson, a benodwyd ym mis Rhagfyr am gyfnod o bedair blynedd.
- 3.3 Cyfarfu'r Cyngor Llywodraethu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn – ar gyfer cyfarfodydd chwarterol a drefnwyd gyda holl swyddogion y tîm rheoli yn bresennol (h.y. y Prif Weithredwr a'r pedwar Clerc Rhanbarthol). Yn ychwanegol cynhaliodd y Cyngor Llywodraethu bump cyfarfod *ad hoc* gyda'r Prif Weithredwr yn unig yn bresennol. Trefnwyd y cyfarfodydd ychwanegol hyn i drafod y problemau cyllido ac, o ganlyniad i'r problemau hyn, yr angen i aildefnu'r gwasanaeth, yn cynnwys ailstrwythuro a lleihau nifer y staff.
- 3.4 Ar ddiwedd mis Mawrth cyhoeddodd y Cyngor Llywodraethu ei gynllun trefniadaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf i'r staff a'r aelodaeth. Nod y cynllun oedd ailfodelu'r haen rheoli a lleihau nifer y staff o ychydig yn llai na 19 i 15 yn y tymor byr, a chau un swyddfa ac adleoli i un arall yn y tymor canolig. [Ceir rhagor o fanylion am yr ystyriaethau ariannol fu'n sail i hyn yn adran 6 Cyllid.]

4 Staffio

- 4.1 Lleihaodd y lefel staffio cyffredinol yn y flwyddyn o 19.8 yn cyfateb i amser llawn i 18.8. Roedd hyn o ganlyniad i Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol yn gadael i ymgymryd â swydd newydd mewn man arall. Gwnaeth y cyllid cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn, ynghyd â llwyth gwaith apeliadau isel hysbys, arwain at benderfyniad i beidio â recriwtio i'r swydd hon.
- 4.2 Parhaodd nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ar bump. Mae chwech aelod o staff (pump ar ôl i'r Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol a grybwyllwyd uchod adael) yn parhau i astudio'r Gymraeg yn rheolaidd gyda chefnogaeth Tribiwnlys Prisio Cymru.
- 4.3 Oedran cyfartalog y staff yw bron 47 oed; a'r hyd gwasanaeth cyfartalog yw ychydig dros 17 mlynedd.
- 4.4 Nifer cyfartalog y dyddiau absenoldeb salwch fesul pob aelod o staff eleni oedd 8.4. Roedd hyn yn cynnwys dau aelod o staff ar absenoldeb salwch tymor hir oherwydd anafiadau corfforol a ddioddefwyd y tu allan i'r gwaith. Y cyfartaledd ar gyfer staff nad oeddynt ar absenoldeb salwch tymor hir oedd 4.47 (yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol).

6. Cyllid

- 6.1 Y cyllid a ddyrannwyd i'r tribiwnlys eleni oedd £1.114 miliwn – o'i gymharu gyda £1.222 miliwn y llynedd (toriad o 8.8%). Roedd y swm a ddyrannwyd yn sylweddol is nag a ragwelwyd gan y tribiwnlys, yn dilyn cyflwyno asesiadau cyllideb 'sefyll yn llonydd' ac 'arbedion tymor byr y gellid eu cyflawni' ar gyfer 2016-17 o £1.3 miliwn a £1.25 miliwn yn ôl eu trefn i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2015. Ymhellach i hyn, fis yn ddiweddarach gwnaeth y tribiwnlys hysbysu ei dîm noddi yn Llywodraeth Cymru bod £40k ar ben yr asesiadau cyllideb blaenorol yn ofynnol oherwydd newid sylweddol mewn cyfrifiaduron na ellid ei osgoi (h.y. newid gweinyddyddion swyddfa gefn a oedd wedi darford) dan y trefniadaeth partneriaeth Technoleg Gwybodaeth gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prasio yn Lloegr. Derbyniwyd y llythyr cyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Chwefror 2016 heb unrhyw ragrybudd am faint y toriad nac unrhyw arwydd ymlaen llaw y byddai'r swm a ddyrannwyd yn sylweddol wahanol i'r asesiadau a gyflwynwyd gan y tribiwnlys yn y Tachwedd blaenorol.
- 6.2 Gwnaeth y Cyngor Llywodraethu roi pwysau ar Lywodraeth Cymru o fis Mawrth tan fis Tachwedd am adolygu'r swm a ddyrannwyd a'i gynyddu, gan fod ymrwymadau sefydlog ar gyfer y flwyddyn yn mynd i arwain at orwariant. Ar ddiwedd Tachwedd cafodd y Llywydd gyfarfod personol gyda'r Gweinidog noddi, a chytunwyd i gwmpasu'r gorwariant, yn cynnwys y newid cyfrifiadurol. Ar y cam hwnnw roedd y gorwariant yn is na'r hyn a ragfynegydd yn wreiddiol oherwydd colli aelod o staff a pheidio ag ailbenodi (fel yr adroddwyd yn adran 5). Cytunwyd ymhellach rhwng y Llywydd a'r Gweinidog y byddai'r dyraniad cyllideb ar gyfer 2017-18 yn £1.114 miliwn ac y byddai angen i Dribiwnlys Prasio Cymru ailstrwythuro, gyda'r dyraniad sefydlog hwn yn eu meddwl a chyda'r nod o dderbyn cyllideb sy'n lleihau yn y blynyddoedd dilynol.
- 6.3 Cyfanswm y gwariant am y flwyddyn oedd £1.204 miliwn (gorwariant o £90K ar y swm a ddyrannwyd yn wreiddiol). Dangosir y manylion yn Atodiad Ch.
- 6.4 Mae Atodiad D yn cymharu gwariant eleni yn erbyn y tair blynedd flaenorol. Mae hyn yn dangos bod y gwariant cyffredinol wedi lleihau flwyddyn ar ôl blwyddyn, a bod cyfanswm y lleihad o'i gymharu gyda 2013-14 dros 11%. Mae hefyd yn dangos bod costau staffio wedi cynyddu ychydig, er gwaethaf lleihau cyfanswm nifer y staff. Mae hyn wedi digwydd yn bennaf oherwydd bod costau pensiwn wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod blynyddoedd diweddar, oherwydd diffygion tymor hir yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn 'gyflogwr cynllun' yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (h.y. mae'n gorff enwebedig yn yr offeryn statudol sy'n diffinio'r cynllun). Gan fod y cynllun yn un statudol, mae gan y Tribiwnlys Prasio ddyletswydd i dalu'r taliadau cynyddol a godir.
- 6.5 Mae Atodiad D hefyd yn dangos bod Tribiwnlys Prasio Cymru wedi llwyddo i wneud arbedion sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gostau cynnal ac eithrio costau staffio (h.y. mwy na 12% ym mhob un o'r tair blynedd ddiwethaf o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol). Dros y cyfnod tair blynedd yn ei

gyfanwydd mae hyn yn gyfystyr i arbedion o 34% o'i gymharu gyda sefyllfa alldro 2013-14.

Datganiadau

**(fel sy'n ofynnol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru –
Llywodraeth Cymru)**

Datganiad Llywodraethu

Llywodraethir Tribiwnlys Prisio Cymru gan ei Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys:


- Llywydd y Tribiwnlys
- Pedwar Cynrychiolydd Rhanbarthol y Tribiwnlys
- ac, os y'i penodir, unigolyn a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagnodir y Cyngor a'i gyfansoddiad gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 [WSI 2010 Rhif 713 (W69)].

Mae'n rhaid i'r Llywydd a'r Cynrychiolwyr Rhanbarthol fod yn aelodau'r Tribiwnlys ac fe'u hetholir gan aelodaeth y Tribiwnlys am gyfnod o ddwy flynedd. Gallant sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd y cyfnod yn y swydd. Etholir Dirprwy Gynrychiolwyr Rhanbarthol hefyd a gallant weithredu fel aelod o'r Cyngor Llywodraethu yn absenoldeb Cynrychiolydd Rhanbarthol eu hardal.

Nodir manylion cydgyfrifoldebau'r Cyngor Llywodraethu, a chyfrifoldebau personol unigol y Llywydd, a chyfrifoldebau unigol pob Cynrychiolydd Rhanbarthol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru, a lofnodir dan gymeradwyaeth Ysgrifennydd Cyllid a Llywodraeth Leol y Cabinet gan swyddog Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr y Tribiwnlys. Mae Prif Weithredwr y Tribiwnlys yn llofnodi ar ran y Tribiwnlys ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llywodraethu.

Mae Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys yn cynnal ei swyddogaethau mewn modd sy'n gyson ag Egwyddorion Canolbwyntio ar Ddinasyddion Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).




Andrew Shipsides
Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol y Tribiwnlys yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion a'r gofynion rheolaeth ariannol penodol a nodir yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru a dogfennau ariannol Llywodraeth a Chynulliad Cymru a memoranda y cyfeirir atynt yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig yn adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi'r Tribiwnlys. Yn ei dro mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn atebol i Lywodraeth a Chynulliad Cymru.

Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo gweinyddiaeth o ddydd i ddydd ei gyfrifoldebau i gyflogaion y Tribiwnlys, ond mae'n parhau'n gyfrifol ac yn atebol yn bersonol amdanynt.



Andrew Shipsides
Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Atodiadau

- A Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pedair blynedd ddiwethaf**
- B Data Clirio Apeliadau 2016/2017**
- C Dadansoddiad oedran a rhyw yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2017)**
- Ch Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2016/2017**
- D Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y pedair blynedd ddiwethaf**

Llwyth gwaith

Atodiad A

- ffigurau cymharol y pedair blynedd ddiwethaf:

		Prisio Ardrethu Annomestig		Prisio'r Dreth Gyngor		Atebolwydd y Dreth Gyngor, cosbau, eraill	
2013-14							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	7540		534		26	
	Derbyniwyd	4822		1835		100	
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	6599	85%	1284	76%	15	19%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	1191	15%	403	24%	62	81%
2014-15							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	4572		682		49	
	Derbyniwyd	4198		1700		97	
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	5232	85%	1398	77%	22	22%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	939	15%	416	23%	78	78%
2015-16							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	2599		568		46	
	Derbyniwyd	8719		1796		104	
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	1719	89%	1552	83%	59	55%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	204	11%	312	17%	49	45%
2016-17							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	9395		500		42	
	Derbyniwyd	3075		1734		80	
Cliriwyd	Datryswyd gan y partion	3333	92%	1306	80%	36	47%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	277	8%	324	20%	41	53%
Dygwyd ymlaen		8860		604		45	

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2017

Math o Apêl		Apeliadau Priso'r Dreth Gyngor		Rhestr Ardrethu Annomestig 2005		Rhestr Ardrethu Annomestig 2010		Amrywiol (e.e. Atebolrwydd / Cosbau)*		Pob apêl	
	Rhanbarth		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm
Dygwyd ymlaen	Dwyrain	89	500	6	63	2057	9332	12	42	2164	9937
	Gogledd	114		10		2218		7		2349	
	De	142		11		2962		11		3126	
	Gorllewin	155		36		2095		12		2298	
Derbyniwyd	Dwyrain	368	1734	0	0	596	3075	17	80	981	4889
	Gogledd	452		0		625		8		1085	
	De	301		0		1233		29		1563	
	Gorllewin	613		0		621		26		1260	
Datryswyd	Dwyrain	259	1306	0	8	823	3325	9	36	1091	4675
	Gogledd	406		2		674		7		1089	
	De	180		1		1203		7		1391	
	Gorllewin	461		5		625		13		1104	
Penderfynwyd	Dwyrain	53	324	0	1	95	276	10	41	158	642
	Gogledd	75		0		79		5		159	
	De	108		1		63		17		189	
	Gorllewin	88		0		39		9		136	
Caniatawyd	Dwyrain	7	20	0	0	4	12	2	8	13	40
	Gogledd	1		0		4		2		7	
	De	9		0		1		2		12	
	Gorllewin	3		0		3		2		8	
Cario trosodd	Dwyrain	145	604	6	54	1735	8806	10	45	1896	9509
	Gogledd	85		8		2090		3		2186	
	De	155		9		2929		16		3109	
	Gorllewin	219		31		2052		16		2318	

* Dangosir manylion yr Apeliadau Amrywiol ar y dudalen nesaf

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2017 – Dadansoddiad apeliadau Amrywiol

Math o Apêl		Atebolrwydd y Dreth Gyngor		Hysbysiad Cwblhau		Hysbysiad Cosb		Cais i adolygu penderfyniad		Lleihad y Dreth Gyngor		Y cyfan	
	Tribiwnlys		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm		Cyfanswm
Dygwyd ymlaen	Dwyrain	0		1		0		1		10		12	
	Gogledd	3		2		0		0		2		7	
	De	4		0		0		0		7		11	
	Gorllewin	2	9	0	3	0	0	1	2	9	28	12	42
Derbyniwyd	Dwyrain	4		2		1		2		8		17	
	Gogledd	7		1		0		0		0		8	
	De	9		0		0		2		18		29	
	Gorllewin	6	26	4	7	3	4	2	6	11	37	26	80
Datryswyd	Dwyrain	1		2		0		0		6		9	
	Gogledd	4		3		0		0		0		7	
	De	1		0		0		0		6		7	
	Gorllewin	3	9	4	9	0	0	0	0	6	18	13	36
Penderfynwyd*	Dwyrain	2		0		0		3		5		10	
	Gogledd	4		0		0		0		1		5	
	De	3		0		0		2		12		17	
	Gorllewin	2	11	0	0	0	0	3	8	4	22	9	41
*Caniatawyd	Dwyrain	0		0		0		2		0		2	
	Gogledd	2		0		0		0		0		2	
	De	1		0		0		0		1		2	
	Gorllewin	1	4	0	0	0	0	0	2	1	2	2	8
Cario trosodd	Dwyrain	1		1		1		0		7		10	
	Gogledd	2		0		0		0		1		3	
	De	9		0		0		0		7		16	
	Gorllewin	3	15	0	1	3	4	0	0	10	25	16	45

Dadansoddiad oedran a rhyw yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2017)

Oedran	Dan 30		30 -39		40-49		50-59		60-69		70-79		Dros 80		Cyfanswm	
	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B
Gogledd	0	0	0	0	0	0	3	3	9	2	16	3	5	0	33	8
Dwyrain	0	0	0	0	0	0	6	2	8	3	11	2	1	0	26	7
De	0	0	0	0	3	2	3	2	12	1	8	2	2	0	28	7
Gorllewin	0	0	0	0	2	0	4	2	16	2	9	1	1	1	32	6
Cyfanswm	0	0	0	0	5	2	16	9	45	8	44	8	9	1	119	28
Canran o gyfanswm yr aelodaeth	0.0%		0.0%		4.8%		17.0%		36.1%		35.4%		6.8%		81.0%	19.0%

Nodyn

- 1 Mae cyfanswm nifer yr aelodau sy'n aelodau cyngor awdurdod lleol yn 24 – lleihad o 11% ar y llynedd, ac yn sylweddol is na'r gyfran uchafswm a ganiateir gan reoliadau statudol llywodraethu'r tribiwnlys (sy'n nodi uchafswm o draean o'r cyfanswm).

Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2016-2017 (£oedd)

Maes gwariant	Swm	Canran y cyfanswm gwariant
Costau staff (ac eithrio pensiynau)	695909	57.82%
Costau pensiynau	147878	12.29%
Is-gyfanswm	843787	70.11%
Costau swyddfeydd	100705	8.37%
Gwariant ar gyfriaduron	142479	11.84%
Gweinyddiaeth ganolog	40414	3.36%
Tribiwnlysoedd	30000	2.49%
Llywodraethu	19021	1.58%
Hyfforddiant aelodau	20106	1.67%
Hyfforddiant staff	7072	0.59%
Is-gyfanswm	359796	29.89%
Cyfanswm	1203584	

Nodiadau

Nid oes ffigurau cymharol blynyddoedd blaenorol ar gyfer y meysydd gwariant, gan fod y rhain wedi cael eu hailddiffinio eleni i adlewyrchu meysydd gwariant y busnes yn well.

Er enghraifft, cyflwynwyd 'Tribiwnlysoedd' i ddangos y gwariant ar gyfarfodydd tribiwnlys a drefnwyd. Costau teithio staff ac aelodau a llogi ystafelloedd yw'r prif elfennau yn y maes hwn. Yn flaenorol roedd yr elfennau hyn wedi eu rhannu yn 'Teithio a Chynhالياeth' a 'Chostau Cynnal Eraill' ac wedi'u cyfuno gyda'r un elfennau yn codi am gyflawni gweithgareddau gwahanol, megis cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddiant y Cyngor Llywodraethu. Nid oedd yr hen fethodoleg yn darparu dadansoddiad o gostau gweithgareddau busnes. Mae'r dull newydd yn gwneud hynny yn awr. Bydd ffigurau gwariant cymharol o ran meysydd busnes ar gael yn y dyfodol.

Dangosir cymhariaeth o gyfanswm gwariant y flwyddyn flaenorol yn Atodiad D. Mae'n dangos bod y gwariant wedi mynd i lawr flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2013-14, er gwaethaf cynnydd blynyddol yn y costau staffio. Mae'r cynnydd yn y costau staffio wedi digwydd oherwydd y cynnydd cyflog costau byw blynyddol (uchafswm o 1% y flwyddyn), cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chynnydd o ran hicyn cyflog rhai staff. Nid yw'r cynnydd wedi digwydd oherwydd twf yn nifer y staff. Mae nifer y staff wedi gostwng (21 swyddog amser llawn yn 2013-14, a 18.8 yn cyfateb i amser llawn yn 2016-17).

Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y pedair blynedd ddiwethaf

Blwyddyn ariannol	Cyfanswm gwariant blynyddol (£)	Canran arbedion o'i gymharu gyda 2013/14	Costau staffio blynyddol (£)	Canran y cynnydd ar y flwyddyn flaenorol	Costau cynnal ac eithrio staffio (£)	Canran y lleihad ar y flwyddyn flaenorol
2013-14	1358330		811711		546619	
2014-15	1305586	3.88%	826208	1.79%	479378	12.30%
2015-16	1249787	7.99%	839169	1.57%	410618	14.34%
2016-17	1203584	11.39%	843787	0.55%	359796	12.38%

Nodiadau

Mae'r arbedion dros dair blynedd yn hafal i ychydig dros 11%.

Gan fod costau staffio blynyddol yn cynyddu (er gwaethaf lleihad yn nifer y staff), daeth yr arbedion o'r holl gostau cynnal eraill. Yn y meysydd hynny nad ydynt yn ymwneud â staffio mae'r gwariant wedi lleihau o £546K i £359K (arbediad o 34%) wrth gymharu sefyllfa alldro 2016-17 gyda sefyllfa alldro 2013-14).